**At:** Y Pwyllgor Busnes

**Gan:** Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

**Dyddiad:** Rhagfyr 2010

**Adolygiad o Reolau Sefydlog y Cynulliad: y newidiadau arfaethedig sy’n ymwneud â Rheol Sefydlog 30**

**Diben**

1. Gwahoddir y Rheolwyr Busnes i ystyried y cynigion ar gyfer gwneud newidiadau i Reol Sefydlog 30, Adroddiadau ar y Trafodion.

**Cefndir**

2. Cytunodd y Pwyllgor y byddai’r Adolygiad yn ystyried newidiadau i’r Rheolau Sefydlog er mwyn:

- gwella eglurder y Rheolau Sefydlog;
- sicrhau eu bod yn cyfateb â chonfensiynau cyffredinol y Trydydd Cynulliad a’i ffordd o weithio; a
- chaniatáu ar gyfer arloesedd a gwelliant.

3. Ceir copi o’r newidiadau arfaethedig i’r Rheol Sefydlog hon yn Atodiad A i’r papur hwn. Ceir ‘fersiwn lân’ o’r Reol Sefydlog berthnasol, sy’n cynnwys yr holl newidiadau arfaethedig, yn Atodiad B i’r papur hwn.

**Y prif newidiadau a gynigir i Reol Sefydlog 30**

4. Ym mis Mai 2010, gwnaed yr argymhelliad a ganlyn gan Banel yr Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Dwyieithog Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â’r ffordd y caiff trafodion y Cynulliad eu cofnodi:

> “Rydym yn **argymell** bod y Cofnod testun gair am air o drafodion ond yn cael ei gyhoeddi yn yr iaith / ieithoedd gwreiddiol a draddodwyd, ynghyd â chofnod o’r cyfieithu ar y pryd o’r Gymraeg i’r Saesneg, fel y’i traddodwyd yn y Siambr ar y pryd. (paragraff 68).”

5. Mae’r argymhelliad yn golygu yr ymdrinnir â chofnod y trafodion ar gyfer y cyfarfod llawn yn yr un modd â chofnod y trafodion ar gyfer pwyllgorau. Cytunodd y Comisiwn ar yr argymhellion hyn ym mis Mai 2010 a’u rhoi ar waith ym mis Medi 2010.

6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid diwygio Rheol Sefydlog 30 er mwyn adlewyrchu darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn well. Mae'r ddarpariaeth berthnasol yn y Ddeddf i'w chael yn adran 31, sy'n nodi'r hyn y mae'n rhaid i Reolau Sefydlog y Cynulliad ei gynnwys:

> *31.(6) The standing orders must include provision—*
>
> *(a) for reporting the proceedings of the Assembly, and for reporting proceedings of committees of the Assembly and sub-committees of such committees which are held in public, and*
>
> *(b) for publishing the reports of proceedings as soon as reasonably practicable after the proceedings take place.*

7. Cynigir, felly:

(i) cael un Rheol Sefydlog mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer cofnodi penderfyniadau (cofnodion) a chofnodi cyfarfodydd cyhoeddus a fydd yn gymwys i drafodion pwyllgorau a'r cyfarfod llawn, gan mai'r un dull a ddefnyddir mewn perthynas â'r naill a'r llall erbyn hyn;

(ii) nodi'n glir mai'r Comisiwn sy'n gyfrifol am bennu'r trefniadau ar gyfer cofnodi a chyhoeddi trafodion yn unol â'r Ddeddf.

**Penderfyniad**

7. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i:

(i) cyflwyno sylwadau ar y newidiadau arfaethedig fel y'u pennir ym mharagraff 7 ac Atodiad A i'r papur a chytuno mewn egwyddor ar y newid i Reol Sefydlog 30.